

## Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 25<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yno am 2.00.
- Sul nesaf – 2<sup>ll</sup> ➤ Bydd oedfa wedi ei threfnu i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul canlynol – 9<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

## Canu Carolau

Rydan ni'n gobeithio medru trefnu i fynd i ganu carolau i rai o'r cartrefi gofal eto eleni. Os oes gennych ddi-ddordeb, wnewch chi gysylltu hefo Mair **erbyn dydd Sul, Rhagfyr 2il**, os gwelwch yn dda? Byddai'n dda gwybod pwy sydd ar gael yn ystod y dydd a/neu fin nos cyn i ni wneud trefniadau pendant, ac wedyn gallwn hefyd drefnu noson i ymarfer.



## I ddod

- **PENWYTHNOS DAIONI** (i ferched Blynnydoedd 7-13) yng Ngholeg y Bala, Rhagfyr 14eg-16eg. Cost £40. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ebostiwrch penwythnosdaioni@gmail.com.
- **GWASANAETH CAROLAU BRO ALED** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Sul, Rhagfyr 16eg am 6.00.
- **'AWN I FETHLEHEM'** – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan nos Lun, Rhagfyr 17eg am 7.30. Gwneir casgliad tuag at Ganolfan Dydd Waen Goleugoed.
- **PLYGAIN** yng Nghapel Bethania, Llansannan am 7.00 bore dydd Nadolig.
- **TAITH GERDDED HAMDDENOL I'R FRO** dydd Gwener, Rhagfyr 28ain. Mwy o fanylion i ddilyn.

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536  
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (5ed), os gwelwch yn dda.

## Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, Tachwedd 25<sup>ain</sup>, 2018

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i'n gwasanaethau ym Mro Aled heddiw. Dim ond mis i fynd tan y Nadolig, peri dychryn neu ddiflastod i chi mae'r ffaith honno?! Sut bynnag ydych chi'n teimlo am y Nadolig, does fawr ddim gobaith i chi anwybyddu'r dathliadau dros y mis nesaf. Yn ffenestri'r siopau neu wrth droi at y cyfryngau daw'r neges yn gyson – mae'r diwrnod mawr bron â chyrraedd! Ond wrth i ni droi at y Beibl i ystyried yr adroddiadau am eni Crist, mae'n ddadlennol nad pryd y ganwyd Iesu sy'n cael ei bwysleisio yn gymaint â pham y mae'r enedigaeth hon mor bwysig. I'n helpu i ystyried y cwestiwn hwn rydym am droi yn ôl ychydig ganrifoedd at *Hyfforddwr Thomas Charles*, a chwestiwn 64 sy'n holi pam fod yn rhaid i'r Gwaredwr (Achubwr) fod yn Dduw ac yn ddyn? Mae Charles yn nodi dwy ran i'w ateb:

1. Heb fod yn Dduw, ni allai ein hachub – 'Does dim duw arall yn bod ar wahân i mi! Fi ydy'r Duw cyfiawn sy'n achub – does dim un arall!' Eiseia 45:21
2. Heb fod yn ddyn, ni allai ddi-ddoddef a marw drosom – 'Roedd y Meseia wedi dioddef drwy farw dros bechodau un waith ac am byth, er mwyn dod â chi at Dduw. Ie, yr un wnaeth bopeth yn iawn yn marw dros y rhai wnaeth bopeth o'i le! Cafodd ei ladd yn gorfforol, ond daeth yr Ysbryd ag e yn ôl yn fyw.' 1 Pedr 3:18

Genedigaeth wyrthiol oedd un Iesu oherwydd mai dyma ddyfodiad Duw mewn cnawd dynol er mwyn gwneud y gwaith unigryw o achub dynion a merched euog. Oni bai i Iesu gael ei eni yn Dduw ac yn ddyn, ni fyddai achubiaeth na gobaith i ddynol ryw - dyna pa mor dyngedfennol yw geni mab Mair.

Gwelais fwletin newyddion yn ddiweddar yn nodi bod Tîm Achub Mynydd Llanberis yn dathlu 50 mlynedd ers iddynt ddechrau. Gwasanaeth a werthfawrogi yn fawr gan bawb sy'n mynydda, yn arbennig y rhai sydd wedi bod mewn helbul. Ond heb y tîm achub mynydd beth fyddai'n digwydd? Pwy fyddai â'r sgiliau a'r cyfarpar priodol i wneud yn siŵr fod y rhai sydd mewn angen difrifol yn cael eu symud ar fyrder o berygl i ddiogelwch? Wrth gwrs, argyfyngau yn unig yw'r achlysuron pan mae angen galw ar dîm achub mynydd, ond neges y Beibl yw bod pawb angen ei achub yn dragwyddol am ein bod i gyd wedi'n gwahanu oddi wrth Dduw. 'Mae'r un fath i bawb am fod pawb wedi pechu. Does neb wedi gallu cyrraedd safon berffaith Duw ar eu pennau'u hunain.' (Rhufeiniaid 3:23).

Mae'r Achubwr wrth law, mae'n barod ac yn abl i'n gwneud yn ddiogel am byth, ydym ni am alw arno?

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 25<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd y Parch. Aron Treharne yn pregethu.
- Mercher – 28<sup>ain</sup> ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- Iau – 29<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Sadwrn – 1<sup>af</sup> ➤ **DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn Parc, Y Bala am 10:00.
- **Hwyl yr Ŵyl** (Blynnyddoedd 3-6) – Mae'r Nadolig yn agosáu a bydd diwrnod i ddathlu yng Ngholeg y Bala rhwng 10.00 a 5.30. Cewch wneud crefft yno, a bydd gemau gwirion, sinema, disco a pharti Nadolig ar eich cyfer! Cost: £12 (hanner pris i frawd neu chwaer). Os hoffech archebu lle i'ch plentyn, cysylltwch â'r Coleg ar 01678 520565 / [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 2<sup>il</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 4<sup>ydd</sup> ➤ **Cyfarfod Blaenoriaid a Diaconiaid Gofalaeth Bro Aled** yn Llanefydd am 7.30.
- Mercher – 5<sup>ed</sup> ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 6<sup>ed</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Gwener – 7<sup>fed</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul canlynol – 9<sup>fed</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 gyda Rhodri yn pregethu.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 25<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 2<sup>il</sup> ➤ Bydd y Parch. Aneurin Owen yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.
- Sul canlynol – 9<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 25<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. Aron Treharne yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd y Parch. Aron Treharne yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 28<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (25ain)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 2<sup>il</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 5<sup>ed</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (2il)**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 9<sup>fed</sup> ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 25<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 2<sup>il</sup> ➤ Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul canlynol – 9<sup>fed</sup> ➤ Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a chynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 25<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 2<sup>il</sup> ➤ Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa i'r daith Henllan am 2.00 a bydd Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul canlynol – 9<sup>fed</sup> ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.